



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

**DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR
2019
am 2.00 o'r gloch yp**

**TUESDAY
10 DECEMBER 2019
at 2.00 pm**

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 10 Medi 2019
- 7 Hydref 2019 (Arbennig)
- 22 Hydref 2019 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

Derbyn y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones:-

Yn y gorffennol, gorchuddiwyd Ynys Môn gan goed Derw ond erbyn heddiw mae'n un o'r ardaloedd lleiaf coediog yng Nghymru. Rhoddwyd caniatâd i Goedwig Penrhos yng Nghaergybi gael ei throï'n Barc Chwarae ar gyfer Cabannau Gwyliau.

Mae angen i ni fel Cyngor wrthdroi'r dirywiad yn ein coetiroedd a chymryd camau pendant i annog plannu mwy o goed ar Ynys Môn.

Rydw i'n gofyn am ymgyrch ledled yr ynys gyda phob ysgol a'u disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith plannu coed ac i'n Cyngor a'n cwmnïau lleol eu noddi.

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **CYFANSODDIAD Y CYNGOR - PROSES GOSOD Y GYLLIDEB**

I ystyried penderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd.